



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Partneriaeth
Cydwasaethau
Shared Services
Partnership

Gyrfaoedd Cynnar

Cymerwch olwg ar y cyfleoedd gyrfa sydd ar gael ym:

Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru

*Sicrhau Gwerth, Arloesi a
Rhagoriaeth drwy Bartneriaeth*

Rydym yn rhan o deulu GIG Cymru. Rydym yn gweithio ledled Cymru, yn cefnogi'r byrddau iechyd a'r ymddiriedolaethau.

Ein Gwerthoedd:

Gwrando a
Dysgu



Cymryd
Cyfrifoldeb



Gweithio
gyda'n gilydd



Arloesi



Er mwyn dysgu mwy am y cyfleoedd sydd ar gael, cymhwystra a sut i wneud cais, sganiwch y cod QR isod gyda'ch dyfais.



Ein Gwasanaethau



Archwilio a Sicrwydd

Rydym yn dîm profiadol, wedi'i leoli ledled Cymru er mwyn darparu sicrwydd annibynnol, gwrthrychol a gweithgareddau ymgynghori sydd wedi'u cynllunio i ychwanegu gwerth a gwella llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth ar gyfer cyrff iechyd Cymru.



Y Gwasanaeth Atal Twyll

Rydym yn gweithio i atal a chanfod troseddau economaidd a gyflawnir yn erbyn GIG Cymru. Mae'n codi ymwybyddiaeth o'r risg o droseddau economaidd drwy addysgu gweithwyr y GIG a Rhanddeiliaid. Mae'r tîm yn cynnwys ymchwilyr profiadol sy'n dwyn i gyfrif y rhai sy'n cyflawni troseddau economaidd yn erbyn GIG Cymru.



Gwasanaethau Cyflogaeth

Rydym yn darparu nifer fawr o wasanaethau trafodol a chynghor arbenigol ar gyfer gwasanaethau Recriwtio, y Gyflogres, Pensiynau, Treuliau, Dyfarniadau Myfyrwyr a Ceir Prydles i GIG Cymru. Rydym yn prosesu 32,000 o hysbysebion a 30,500 o gynigion gan gynnwys camau gwirio cyn cyflogi, gan gynhyrchu 150,000 o slipiau cyflog i staff sy'n gweithio yn GIG Cymru bob blwyddyn. Mae ein gwasanaethau yn y sector gofal sylfaenol yn esbonio ac yn rhoi sylw i rolau a sgiliau'r staff sy'n gweithio yn y gymuned sy'n bwysig ar gyfer cynllunio sut y darperir gofal.



Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol

Rydym yn darparu gwasanaethau Corfforaethol ar draws y Sefydliad ym meysydd megis Cyfathrebu, Llywodraethu Gwybodaeth, Iechyd a Diogelwch a Rheoli Risg. Mae ein tîm Cyllid yn gyfrifol am fonitro ac adrodd ar ddyraniad cyllideb PCGC yn ogystal â phartneru â'n Gwasanaethau i sicrhau safonau uchel o reolaeth a llywodraethu ariannol.



Gwasanaethau'r Golchdy

Rydym yn cyflenwi holl sefydliadau GIG Cymru â llinellau glân, o ansawdd da ac wedi'u dihalogi i gefnogi darparu gofal i gleifion.



Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg

Rydym yn darparu ystod gynhwysfawr o wasanaethau cyfreithiol i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Rydym hefyd yn lletya Cronfa Risg Cymru sy'n rheoli ad-dalu hawliadau ac sy'n hyrwyddo dysgu a gwelliant o ran diogelwch cleifion.



Gwasanaeth Archwilio Meddygol

Rydym yn darparu gwasanaeth craffu annibynnol ar bob marwolaeth nad yw'r crwner yn ymchwilio iddi. Gwneir gwaith craffu i sicrhau bod achos marwolaeth cywir wedi'i gofnodi, yn nodi unrhyw bryderon ynghylch y farwolaeth ei hun y gellir ymchwilio ymhellach iddynt os bydd angen, ac yn ystyried barn y rhai sydd mewn profedigaeth.



Pobl a Datblygu Sefydliadol

Rydym yn dîm o weithwyr proffesiynol, sy'n gyfrifol am gefnogi cylch oes gweithwyr o gychwyn i adael eu swyddi. Rydym yn gweithio gyda'r sefydliad i sicrhau bod gan ein pobl y sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad priodol i gyflawni ein hamcanion sefydliadol. Rydym yn ffodus bod Tîm y Gymraeg yn gweithio ochr yn ochr â ni, sy'n galluogi a chynghori'r sefydliad o ran cynllunio gwasanaethau Cymraeg a gwasanaethau cyfieithu, sydd felly'n sicrhau bod anghenion ein pobl a'n cwsmeriaid yn cael eu diwallu a'u deall.



Cynllunio, Perfformiad a Gwybodeg

Mae ein harbenigedd yn cynnwys Cynllunio, Adrodd am Berfformiad, Roboteg, diogelwch TG, Rheoli Prosiectau, a Gwella Gwasanaethau. Rydym hefyd yn lletya Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (WIBSS).



Gwasanaethau Gofal Sylfaenol

Cefnogi gofal sylfaenol cynaliadwy drwy ddarparu gwasanaethau proffesiynol, clinigol a thrafodol. Gwneud y mwyaf o'n cyfraniad at ddatblygu a chyflawni'r Model Gofal Sylfaenol yng Nghymru.



Caffael, Gwasanaethau Negesydd Iechyd a'r Gadwyn Gyflenwi

Rydym yn cyrchu a phrynu nwyddau a gwasanaethau yn ogystal â storio, casglu, pacio a dosbarthu nwyddau, a chludo amrywiaeth enfawr o eitemau ledled GIG Cymru i sicrhau bod clinigwyr yn gallu gwneud eu gwaith. Rydym yn cyflogi swyddogion categori cyrchu, prynwyr, gweithredwyr derbyn a dosbarthu, gweithwyr warws a gyrwyr.



Gwasanaethau Ystadau Arbenigol

Rydym yn rhoi cyngor a chymorth i Lywodraeth Cymru a GIG Cymru ar ystod eang o faterion yn ymwneud ag ystadau a chyfleusterau. Mae ein hamrywiaeth o staff proffesiynol a thechnegol medrus iawn i roi cyngor ar arferion gorau ar draws ystod o feysydd arbenigol. Mae ein tîm yn cynnwys penseiri siartredig, peirianwyr, syrfewyr ac arbenigwyr technegol eraill sy'n defnyddio eu harbenigedd i gynghori ar ystod eang o faterion adeiladu, ystadau a chyfleusterau gan gynnwys cynaliadwyedd, dylunio, adeiladu a chydymffurfio â chanllawiau a safonau perthnasol.



Y Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol

Rydym yn profi dyfeisiau meddygol a gwasanaethau technegol i GIG Cymru, Asiantaethau Llywodraeth y DU a'r diwydiant dyfeisiau meddygol rhyngwladol. Mae hyn yn helpu Gwasanaethau Caffael a sefydliadau eraill i brynu ar sail tystiolaeth.



Trawsnewid Mynediad At Feddyginiaethau (TrAMS)

Rydym yn darparu nifer o wasanaethau fferyllol gan gynnwys cyrchu, caffael, storio, gweithgynhyrchu a dosbarthu meddyginiaethau ar draws GIG Cymru.

Isod mae rhai o'r Llwybrau Dechrau Gyrfa rydyn ni'n eu cynnig:

Lleoliadau Gwaith

Ar hyn o bryd, rydym yn cynnig lleoliadau gwaith di-dâl tymor byr ar draws Cymru, gyda'r bwriad o roi mewnwelediad gwerthfawr i bobl ar sut beth yw gweithio yn ein sefydliad yn y dyfodol.

P'un a ydych chi'n ddi-waith, yn fyfyrwr, yn raddedig neu'n ôl-raddedig, neu'n rhywun sy'n edrych am yrfa newydd, mae modd i chi wneud cais am ein lleoliadau gwaith nawr.

I holi am gyfleoedd lleoliad gwaith, cysylltwch â:

nwssp.peopleandod@wales.nhs.uk

Prentisiaethau



Fel Prentis, byddwch yn mabwysiadu dull dysgu cyfunol. Bydd hyfforddiant yn cael ei dderbyn trwy gyfuniad o hyfforddiant yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith. Ar ddiwedd eich contract, byddwch yn derbyn cymhwyster Prentis a byddwch wedi cael profiad gwaith gwerthfawr ac wedi dysgu sgiliau gyda ni.

Mae prentisiaethau ar gael i unrhyw un dros 16 oed, nad ydynt mewn addysg amser llawn, ac yn gymwys i weithio yn y DU. Gyda'n sefydliad, ewch i:

<https://pcgc.gig.cymru/gweithio-i-ni/swyddi-gwag-cyfredol/>

Cynllun Rhwydwaith 75



Mae Cynllun Rhwydwaith 75 yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ymgymryd â chymhwyster gradd cydnabyddedig wrth iddyn nhw ddefnyddio eu gwybodaeth yn uniongyrchol yn y gwaith. Mae'r fenter wedi'i gweinyddu gan Brifysgol De Cymru ac mae'n cynnig y cyfle i fyfyrwyr ddilyn gradd rhan amser wedi'i hariannu'n llawn dros gyfnod o bum mlynedd tra hefyd yn gwneud lleoliad gwaith wedi'i gyflogi gyda ni.

I wneud cais am y cynllun gyda'n sefydliad, ewch i:

<https://network75.southwales.ac.uk/hafan/ymgeisiwch/>

Rhaglen Rheolaeth Gyffredinol i Raddedigion GIG Cymru

Cynllun dwy flynedd dan arweiniad Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (AaGIC) lle mae graddedigion yn cael eu lleoli yn un o'r tri ar ddeg o Fyrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau neu Sefydliadau Partner.

Mae graddedigion yn ymgymryd â chwrs meistr wedi'i ariannu'n llawn mewn Arweinyddiaeth Iechyd Gymhwysol (Mae hwn yn rhan amser dros gyfnod y cynllun).

I wneud cais am y cynllun gyda'n sefydliad, ewch i:

<https://nhs.wales/leadershipportal.heiw.wales/general-management-grad-programme>

Mae Academi Gyllid GIG Cymru hefyd yn cynnig Cynllun i Raddedigion. I gael gwybod rhagor ac i wneud cais, ewch i:

<https://academigyllid.gig.cymru/>

Gadewch i ni Glywed Gan in Pobl:



"Mae gweithio a hyfforddi yng Ngwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC fel myfyriwr Rhwydwaith 75 wedi bod yn brofiad hynod werth chweil. Mae gweithio yng Ngwasanaethau Cyfreithiol a Risg wedi fy ngalluogi i ddatblygu yn broffesiynol ac yn bersonol i fod yn unigolyn sy'n gweithio'n galed ac yn gydwybodol. Rwy'n priodoli cyfran fawr o'r sgiliau hanfodol yr wyf wedi'u dysgu i PCGC."

Amy Bartlett



"Gweithiais fel Prentis Gweinyddu Busnes AD yn yr Adran Pobl a Datblygu Sefydliadol. Dysgais sut i gymryd cofnodion a threfnu cyfarfodydd a hyfforddiant i staff. Roedd y gefnogaeth a gefais gan y tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol drwy gydol fy mhrentisiaeth yn aruthrol."

Ellie Morgan



"Roedd fy mhrofiad yn ystod fy lleoliad yn y Tîm Cyfathrebu Corfforaethol a Chyllid yn un cynnes a chroesawgar. Cefais groeso cynnes gan aelodau fy nhîm ac eraill a wnaeth i mi deimlo'n gartrefol yn y sefydliad ar unwaith. Ar ôl hynny, llwyddais i sicrhau swydd barhaol yn y tîm."

Sam Dicken



"Mae'r Cynllun Hyfforddi Rheolaeth i Raddedigion yn darparu cyfleoedd cyffrous sy'n werthfawr ac yn rhoi boddhad. Rwyf wedi dysgu llawer iawn ac wedi cyfarfod â phobl anhygoel, cefnogol ac ysbrydoledig. Mae'r cynllun hwn wedi fy ngalluogi i fagu hyder, datblygu fy sgiliau a gwybodaeth a dod o hyd i'r maes gwasanaeth sy'n berffaith i mi. Yn dilyn ymlaen o'r cynllun hwn, rwyf wedi llwyddo i sicrhau swydd barhaol yn y sefydliad. Rwy'n ddiolchgar am y cyfle ac ni fyddaf byth yn anghofio'r profiad!"

Georgia Keegan



"Fel sefydliad, mae PCGC wedi bod yn gefnogol iawn. I mi, mae'n dangos bod PCGC yn sefydliad sydd yn buddsoddi yn y dyfodol ac mewn datblygu'n barhaus. Rwy'n teimlo bod yr holl dimau rydw i wedi ymweld â nhw wedi arddangos y weledigaeth hon. Mae pawb wedi bod yn awyddus iawn i'm datblygu ac i wneud i mi deimlo fy mod i'n rhan o'r sefydliad. Does dim byd wedi bod yn ormod o drafferth i neb ac mae'n wir pan fydd pobl yn dweud nad oes yr un cwestiwn yn gwestiwn gwirion!"

Laura Price



"Yn fy rôl fel Prentis, rwy'n gweithio gyda thîm bach o staff cynnal a chadw sy'n cynnwys crefftwyr trydanol a mecanyddol yn y golchdy. Mae fy ngwaith yn y golchdy yn cynnwys gwaith cynnal a chadw trydanol/mecanyddol o ddydd i ddydd ar beiriannau'r golchdy yn ogystal â chanfod diffygion a thrwsio peiriannau pan maent yn torri i lawr. Rwy'n mwynhau fy swydd yn y golchdy ac yn teimlo fy mod i wedi cael cyfle gwych."

Zakary Griffiths



"Pe bawn i heb gael cynnig o brofiad gwaith, dw i wir ddim yn gwybod sut fyddai fy mywyd gwaith erbyn hyn. Roedd PCGC yn credu ynof ac roedd eisiau fy helpu i ddychwelyd i'r gwaith. Rwyf wedi bod yn ffodus i weithio gyda phobl anhygoel sydd wedi credu ynof, wedi fy nghefnogi, fy annog a fy helpu i dyfu yn y sefydliad. Rwy'n hynod ddiolchgar o wybod eu bod wedi rhoi cyfle i mi. Roeddwn angen amser i ailadeiladu fy hun wrth i mi ailymuno â'r byd gwaith ac fe ges i gefnogaeth i wneud hynny bob cam o'r ffordd."

Kerry Flower-Fitzpatrick



"Dechreuodd fy nhaith gyda Gwasanaethau Ystadau Arbenigol (SES) Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) ym mis Medi 2018 fel myfyriwr rhwydwaith 75. Yn ystod fy amser yn SES PCGC, rwyf wedi cael y fraint o weithio ar nifer o brosiectau mawr a phroffil uchel. Ar ôl cwblhau fy mhumed flwyddyn a'm blwyddyn olaf fel myfyriwr Rhwydwaith 75, mae fy nghymhwysedd wedi datblygu i lefel lle rwy'n teimlo'n hyderus i gwblhau profion ar y safle ar fy mhen fy hun ac ateb cwestiynau heriol gan gontractwyr a chleientiaid"

Aran Chaplin

Yn ein sefydliad, mae gennym wasanaethau sy'n darparu cymorth gweinyddol a gweithredol i GIG Cymru.

Mae amrywiaeth ein sefydliad yn golygu ein bod yn cyflogi amrywiaeth o bobl a gweithwyr proffesiynol. Mae rhai o'r swyddi ein sefydliad yn cynnwys:



Cyfrifwyr



Gweinyddwyr



Gyrwyr



Peirianwyr



Ymchwilwyr



Cyfreithwyr

Felly beth ydych chi'n aros amdano? Dewch i ymuno â ni!

Os hoffech chi ragor o wybodaeth amdanom ni, ewch i unrhyw un o'n gwefannau isod neu'r platfformau cyfryngau cymdeithasol. Fel arall, ar gyfer unrhyw ymholiadau, cysylltwch â:



nwssp.peopleandod@wales.nhs.uk



<http://nwssp.nhs.wales>



[@NWSSP](https://twitter.com/NWSSP)



[@NHS Wales Shared Services Partnership](https://www.linkedin.com/company/nhs-wales-shared-services-partnership)